# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD* MAI 1975 RHIF 20

# GWERTHU EIN GENEDIGAETH FRAINT

## Dysger iaith y nefoedd yn ein heglwysi

Roeddwn yn eithaf hapus y dydd o'r blaen o weld fod yna dros 1,500 o oedolion wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg yn ysgolion nos Morgannwg Ganol a bod dros fil o bobl wedi gwneud rhywbeth cyffelyb o gwmpas Caerdydd. Mae pethau'n gwella meddwn, mae dyfodol yr iaith yn sicrach nag y bu, fe gawn glywed pobl yn siarad Cymraeg yn gyson ar strydoedd Caerffili a Rhiwbeina eto, mae sianel deledu Gymraeg yn mynd i ddod cyn hir, mae arwyddion dwyieithog yn dechrau cael eu codi ar ochr ein ffyrdd - mae'r dyfodol yn sicr meddwn. Tu allan i gapel 'Cymraeg' yn y ddinas y bore dydd Sul ar ol hynny roeddwn yn rhyw glywed pethau fel hyn ymhlith y bobl oedd ar eu ffordd allan o'r addoldy 'How are you?' Wasn't the service wonderful this morning, 'Oh it's cold after coming outside' ac yn y blaen ac yn y blaen. Yn wir i chi - Cymry Cymraeg prifddinas Cymru yn cyfarch eu gilydd ar y ffordd allan o wasanaeth Cymraeg. Sut yn y byd mawr ydyn ni'n mynd i ennill y frwydr fawr yma i gael 'Saeson' i ddod i siarad Cymraeg a'i gilydd tra bod Cymry Cymraeg yn siarad Saesneg a'i gilydd. Beth allwn wneud tybed?

Mae'n ffaith nad ydyw ein haddoldai Cymraeg wedi gwneud llawer dros y 'Dysgwyr'. Mae'r argyfwng ieithyddol yn gyfryw ar hyn o bryd fel bod yn rhaid i bob cymdeithas sy'n honni ei bod yn gymdeithas Gymraeg geisio gwneud rhywbeth. Mae cymdeithasau fel yr Urdd a Merched y Wawr yn gwneud yr hyn fedrant dros yr iaith ond ble mae'r capeli a'r eglwysi? Mae'n ffaith siwr o fod y byddai'r iaith Gymraeg wedi marw erbyn hyn onibai am ein haddoldai - mae'n hiaith a'n crefydd yn agos iawn at eu gilydd. Tybed a yw ein heglwysi yn sylweddoli fod yr iaith Gymraeg yn mynd i farw os na wneir pob ymdrech posibl yn ystod y blynyddoedd nesaf yma.

### APÊL AM ATHRAWON

Roeddwn yn cyfri yn gyflym iawn y dydd o'r blaen fod yna o leiaf 15 o athrawon Cymraeg yn mynychu un capel yn y ddinas a llawer o'r rhain wrth gwrs yn cymryd dosbarth nos yn gyson ond llawer hefyd heb fod yn gwneud hynny. Rwy'n siwr fod pethau'n debyg iawn mewn aml i addoldy arall yn y ddinas. Mae gan bob capel festri hardd sydd yn aml iawn yn wag yn ystod yr wythnos. Ga i wneud apêl ar bob capel ac eglwys Gymraeg fynd ati i sefydlu dosbarthiadau nos yn ystod y gaeaf nesaf. Nawr yw'r amser i ddechrau paratoi. Mae llawer o bobl yn anffodus, o dan yr argraff mai dim ond trwy 'Wlpan' yn unig mae dysgu Cymraeg erbyn hyn. Mae angen pob math ar ddosbarth mewn pob math o le fel bod yna ddigon o siawns i bawb sydd am ddysgu 'r iaith i ddod yn rhugl. Mae gan ein heglwysi un fantais fawr dros unrhyw gymdeithas arall sy'n ceisio dysgu Cymraeg, sef cymdeithas naturiol Gymraeg sy'n cwrdd yn gyson wrth law bob amser. 'Rwy'n siwr y byddai hon yn ffordd dda iawn i ychwanegu tipyn at y rhif aelodaeth yn ein heglwysi.

Gobeithiaf weld swyddogion ein heglwysi yn mynd ati i roddi ystyriaeth fanwl i'r mater hwn. Os cawn ddigon o ddiddordeb ymhlith ein haelodau fe drefnwn gyfarfod 'Undebol' i geisio rhoi cyfarwyddyd pellach i 'r gwirfoddolwyr yma fydd yn mynd ati i ddysgu Cymraeg. Peidiwch gyda llaw a meddwl mai rhywbeth i athrawon yn unig ydyw hyn - mae'n ffaith y gall un rhyw un sydd o ddifri ac eisiau dysgu'r iaith wneud gwaith gwych y dyddiau hyn gan fod yna ddigon o gyrsiau cymharol hawdd ar gyfer hyfforddwyr. Edrychaf ymlaen at glywed eich ymateb i apel fel hon. Rwy'n siwr os nad ydych erioed wedi dysgu Cymraeg i Oedolion y ffeindiwch y gwaith yn wirioneddol werth chweil ac y cewch lawer iawn o hapusrwydd o'i gyflawni.

JOHN ALBERT EVANS,
Cilgwyn, 54 Fidlas Road,
Llanishen.

# Cystadleuaeth i'r dysgwyr

Stori Fer ar unrhyw destun.

Beirniad Mr Illtyd Lewis.
Gwobrau o docynnau llyfrau yn rhodd gan Mr Leighton Davies, 18 Westville Road, Penylan. £10, £5, £2-50 a £1.

Anfoner y cyfansoddiadau at Y Golygydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, erbyn Gorffennaf 7fed, gan nodi enw'r ymgeisydd ynghyd a ffugenw. Cyhoeddir enwau'r buddugwyr yn rhifyn Medi o'r Dinesydd a bwriedir cyhoeddi'r straeon yn ogystal.

*A dechreuasant lefaru â thafodau dieithr......*



# LLYTHYR




# at y Golygydd

*Annwyl Syr,*

*Setlais gyda'm teulu yng Nghaerdydd yn ddiweddar ar ôl byw am flynyddoedd lawer yng Nghefn gwlad Pen Lleyn. Er nad oeddwn yn disgwyl i bethau fod yr un fath ag o'r blaen mae bywyd amhersonol y Brifddinas wedi fy siomi'n fawr. Dywedwyd wrthyf cyn dod yma fod yna tua 12000 o Gymry Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd yn unig ac fel canlyniad disgwyliais gymdeithas Gymraeg weddol glos yn y maestrefi fel Rhiwbeina, Eglwysnewydd a Llandaf.*


*Ond i'r gwrthwyneb mae cael gafael ar Gymry Cymraeg yn dasg anodd a dweud y lleia' - onibai, mae'n amlwg, fod rhywun yn perthyn i griw arbennig fel Cymdeithas Rhieni rhyw ysgol neu'i gilydd. Does yna'r un tafarndy y gall rhywun fynd ar nos Sadwrn a gweld criw o Gymry heblaw am y Conway a'r Elai Newydd ond llafna' ifanc sy'n mynd yno.*

*Ond y sioc fwya' o'r cwbl a gefais oedd gweld fod capeli Cymraeg Caerdydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd mor od. Does ryfedd nad oes bywyd Cymraeg naturiol i'w gael yn y maestrefi a enwais uchod a'r capeli, sefydliadau holl bwysig mewn cymdeithas glos, yn un pentwr ynghanol Caerdydd. Gwn nad yw'n hawdd y dyddiau yma i godi capeli newydd ond deallaf fod un capel yng Nghaerdydd yn symud yn y dyfodol agos. Oni ddylid gwneud ymgais i sefydlu'r achos mewn lle fel yr Eglwysnewydd lle y gall pobl gerdded i'r oedfa a dod i adnabod cannoedd o Gymry fyddai'n byw yn gyfagos. Mae mynd i gapel yng Nghaerdydd bron fel mynd i glwb - gweld pobl unwaith yr wythnos a dyna hi tan y Sul canlynol.*

*Hwyrach y gallwch fy meirniadu am bregethu heb fod wedi byw yma'n ddigon hir ond fy ymateb cyntaf i fywyd yng Nghaerdydd yw fod yna angen rhoi trefn ar fywyd Cymraeg yr hen le 'ma - does bosib eich bod yn mwynhau ffasiwn fywyd.*

*Yn gywir,*

*M. PARRI,*
*Y Rhath, Caerdydd.*




Bydd bwlch ym nghylch y Creigiau wedi ymadawiad Keith ac Eira Phillips â'r ardal. Penodwyd Keith i swydd Prif Gemegydd gyda'r Bwrdd Dŵr yn Llanelli a dechreuodd ar ei waith ar y cyntaf o Fai. Bydd y teulu'n ymgartrefu ym mhentref bychan Llannon ger y Tymbl, ym mis Gorffennaf. Athrawes Gymraeg ymroddedig yn Ysgol Uwchradd Cathays oedd Eira cyn geni'r plant, a bu'r ddau yn hynod weithgar gyda phopeth Cymraeg, gan gyfrannu at weithgarwch yr Ysgol Feithrin, Plaid Cymru, Côr Godre'r Garth, a'r Côr Cerdd Dant a Chapel y Tabernacl, Efail Isaf. Bydd ein colled ni yn sicr yn ennill i Lanelli - ac y mae'n siwr y bydd Keith, sy'n un o ddyfarnwyr Undeb Rygbi Cymru, wrth ei fodd yn ardal y Sosban! Pob hwyl iddynt, ac i Sioned a Manon. Da clywed fod chwaer Eira, sef Meinir, a'i phriod Dr Arthur Boyns, wedi ymgartrefu'n hapus yn eu cylch newydd hwythau yn Ffestiniog.

*Llydaweg os gwelwch yn dda.*





## Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120

CYMDEITHAS
## TAI GWYNEDD

Hon yw'r Gymdeithas sy'n darparu cartrefi i deuluoedd Gwynedd.

**Dyma'ch cyfle i fuddsoddi eich arian yng Nghymru**
**LLOG 9%**

Danfonwch air y funud hon at:
Dafydd Iwan, Trefnydd Tai Gwynedd,
Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.
Ffôn: Penygroes (028 681) 730

## Tair Record Newydd:

Y GASGEN : SAIN 50 - Grŵp newydd cynhyrfus o Faldwyn.
PERLAU TÂF: SAIN 51 - Record gyntaf y grŵp enwog hwn i 'SAIN'
TAL GRIFFITH: TAG 21 - Record gyntaf pencampwr Cymru ar yr Unawd dros hanner cant - llais gwych o Ben Llyn.

Hefyd casetiau "SALEM" Endaf Emlyn, "HEN FFORDD GYMREIG O FYW" Edward H. Dafis a GOREUON SAIN 3.

*Ewch i Siop y Triban i'w prynu cyn iddyn' nhw ddiflannu!*

*SAIN (Recordiau) Cyf., Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon. Penygroes 732.*



Ifan Wyn Williams sydd newydd ei benodi yn Brifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Brodor o Ddyffryn Nantlle yw Mr Williams, mae'n briod ac y mae ganddo ddau fab a merch. Ar ol graddio yn Y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth gwnaeth gwrs o astudiaeth pellach a arweiniodd at radd M.A.

Dechreuodd ar ei yrfa fel athro Cymraeg yn ysgolion Tywyn a Llanfair Caereinion cyn ymuno â staff y BBC yng Nghaerdydd fel Cyhoeddwr. Bu am rai blynyddoedd wedi hynny yn ddarlithydd ar staff adran Y Gymraeg, Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Yna dychwelodd i'r BBC am gyfnod.

Ond mae'n amlwg mai ym myd Addysg yr oedd ei brif ddiddordeb a thair blynedd yn ol fe'i penodwyd yn Brifathro ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, Arfon, - yr ysgol y bu ynddi'n ddisgybl.

Estynnir croeso cynnes iawn iddo fo a'i deulu yn ol i Gaerdydd a dymunir pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

PLAID CYMRU

Mehefin 7 fed 8 p.m. - 1 a.m.

Fferm Pantygored, Creigiau

SGUBOR LAWEN

TRIBAN : DISCO : RANDALL ISAAC.

£1.30 i gynnwys swper.

Bar. Am docynnau ffonier Pentyrch 890032 neu 890883.

# colofn sbectol * SIAN

## INFFLÊT

Mae'r chwyddiant yma'n taro pawb yn ei dro - dim côt ffwr newydd eleni, ac mae'n bur debyg y bydd yn rhaid gwerthu'r Rolls hefyd.

ddiweddar yn son am yr holl dai gweigion yng nghyffiniau'r dociau. (Dros 150 yn ardal Adamstown yn unig).

Fe wyddom yn iawn am gwynion pobol yr Urdd am brinder arian, ond mae nhw wedi cael yr ateb i'r holl broblem. "If iw can't bît it, join it", medda nhw. Yr ateb wrth gwrs yw cynnal ras falwns. Go dda wir - dyna inffleshion i chi! Gwrandewch fechgyn, beth am yrru'r Nages Ewyllys Da yr un pryd?

Dyma'r tro cyntaf imi sylweddoli faint o deuluoedd sy wedi symud allan o Gaerdydd i ymgartrefu o amgylch godre'r Garth!




## TW LET

Darllenais erthygl yn y "Cardiff People's Paper" yn ddiweddar yn son am yr holl dai gweigion yng nghyffiniau'r dociau.

## O.N.

Efallai fod dau neu dri ohonynt wedi dangos diddordeb yn y swydd â hysbysebwyd yn y Cymro dro'n ôl - am fachgen i weithio i antur Aelhaearn, fel crochendŷ!

Swydd i'r tô sy'n codi dybiwn i.

## TW LÊT

I un nad yw'n deall llawer am bel droed, dim ond fod Bobby Moore yn ffab, a bod rhaid cael passport i chwarae yn y gôl i Gymru, roedd geiriau George Edwards, cyfarwyddwr clwb Dinas Caerdydd yn achosi dipyn o grafiad pen i mi. Dywedodd y dylai Caerdydd fod wedi mynd i lawr ddwy flynedd yn ôl. "What's the good", meddai, "of struggling at the bottom of the second division all the time?"

Felly, holl ddilynwyr y brifddinas, mae pethau am newid. Y flwyddyn nesaf cewch weld Caerdydd yn stryglio ar waelod y drydedd adran!

Glywsoch chi am y gŵr yn ffonio Parc Ninian i ofyn pryd oedd y gem yn dechrau.


"Erbyn pryd elli di ddod?" oedd yr ateb.

## O.N.O.N.

Newydd ddarllen adroddiad swyddogol yn dweud y bydd Efail Isa a Creigiau a Thonteg ymhen ychydig o flynyddoedd yn rhan o Gaerdydd gan fod y brifddinas yn bwriadu ehangu'n ddychrynllyd mae'n debyg yn y dyfodol agos. Fydd na ddim i griw'r Garth ei wneud ond mynd i fyw ar y Fflat Orme - maent yn siwr o gael steddfod mwy fflat nag arfer wedyn.

## PWYSIG - DALIER SYLW


Cynhelir cyfarfod i drafod holl drefniadau dosbarthu Y Dinesydd yn swyddfa Meredydd Evans, am 8 o'r gloch nos Fercher Mai 21ain. Mawr obeithiwn y bydd y dosbarthwyr presennol ynghyd ag unrhyw un arall sydd am helpu yn mynychu'r cyfarfod. Y cyfeiriad yw Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol y Parc, Caerdydd.




*Nid oedd dôs o Andrews yn ddigon da i dîm peldroed Caerdydd.*

# MAES Y PLANT

## POS CROESEIRIAU



**AR DRAWS**

1. *Fe ddaw hon bob amser o flaen taran. (6)*
5. *Fe fu hwn farw wrth gario glo i Fflint, medden nhw! (4)*
7. *Roedd dros ddwsin yng Nghymru unwaith. (3)*
9. *Roedd un deg naw o flaen hwn yn y ras! (8)*
13. *Dyma a ddywed y rhai sy'n methu mynd heddiw. (3,5)*
15. *Ni — henaint ei hunan. (3)* Dihareb
17. *Ffordd o deithio mewn twnnel! (4)*
19. *Esgid i'w gwisgo i gerdded trwy dywod! (6)*

**I LAWR**

1. *Rŷch chi ynddo nawr! (3)*
2. *Efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd ——. (5)* Darn o salm
3. *Daw hwn ar ôl y bore bob amser. (4)*
4. *Mae un gan dad a mam, a chi, gobeithio! (2)*
6. *Fe fedrwch anfon hwn drwy'r post mewn amlen. (5)*
11. *Roedd gan yr hen wraig oedd yn byw mewn esgid, lawer. (5)*
12. *Anaml y gwelwch chi frenhines yn gwisgo un er fod ganddi hawl i wneud. (5)*
14. *Fe fyddech yn siŵr o wlychu'ch traed wrth geisio cerdded o hon! (4)*
16. *Doedd hwn ddim yn gyntaf! (3)*
18. *Mae'r curlaw yn dallu ffenestri fy nhŷ, A thymestlwynt Tachwedd a gyfyd ei ··. (2)* (Eifion Wyn)

Atebion - Tud 11

## CRAFU PEN

1. Pa lythyren sy'n dod ar ôl "D" yn y Geiriadur Mawr?
2. Beth yw'r lliw sy rhwng gwyrdd ac indigo yn yr enfys?
3. Beth yw lliw crysau tîm pêl droed Sgotland?
4. Pwy aeth i ffair Pwllheli?
5. Ydy cnau mwnci'n tyfu ar goed?
6. Beth oedd ag ystlys ddu a chynffon ddu, ddu, ddu?
7. Ydy dyn sy'n cael ei saethu gan fwled yn clywed sŵn y gwn?
8. Faint o bobol sy raid ichi'i gael i gweryla?
9. Pwy yw Nawdd Sant y plant?
10. Pa aderyn sy'n dodwy ŵy mwya'r byd?

Atebion - Tud 11

### GENEDIGAETHAU

Braf yw gallu cyhoeddi mwy o enedigaethau y mis hwn eto. I Sion a Marged Emlyn ar Fawrth 27 ganwyd Enfys Mai, chwaer i Awel Menai. Mae'r teulu yn byw yn Stryd Dodfael, Cathay. Mae cefn Sion yn gwella'n raddol hefyd.

Ganwyd merch fach hefyd i Dai ac Alwena Williams, Gyrfa Carnegi, Ardal Glanllyn. Ei henw yw Ffion Lloyd Williams. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

## MIS MAI

Fe wyddoch y chwedl o wlad Groeg, rwy'n siŵr sy'n dweud mai Atlas yw'r gŵr sy'n cynnal y byd. Mae'n ei gadw ar ei ysgwyddau. O enw'r gŵr hwn y daw'r llyfr mapiau y byddwch yn ei ddefnyddio yn yr ysgol, yr Atlas. Roedd gan Atlas saith o ferched a oedd yn byw yng nghrombil mynydd. Un ohonyn nhw oedd Maia. Hi oedd yr enwocaf achos roedd ganddi fab o'r enw Mercher, a'i waith ef oedd cario negesau i'r duwiau.

Brenin y duwiau oedd Iau, ac roedd e'n gwneud pethau od ambell dro. Un diwrnod, fe gymerodd y saith duwies a'u troi nhw'n sêr gan eu gosod yn y ffurfafen. Dim ond chwech o'r sêr yma y gellir eu gweld heb gymorth telisgop. Un ohonyn nhw yw Maia, yr un a roes ei henw i'r mis hwn - Mai.

Gyda llaw, enw gwraig Iau oedd Juno, ac mae rhai pobl yn dweud mai ganddi hi y cyfwyd enw'r mis nesaf, yn Saesneg, June.

## GLYWSOCH CHI HON?

Glywsoch chi am y wraig honno oedd yn bwyta'i gŵr?

*Creadur gwenwynig sy'n aml yn byw yn yr anialwch yw'r sgorpion, ond mae'n dianc oddi wrth ddyn bob cyfle a gaiff. Ond mae wrth ei fodd yn cuddio mewn gwelyau, mewn esgidiau a dillad - yn bennaf am ei fod yn hoffi tywyllwch. Ond os daw rhywun i hawlio'r gwely, a mynd dan y dillad heb edrych, fe all y sgorpion ei bigo'n gas gan beri poen iddo a chreu awydd ynddo i gysgu. Mae e'n hoff iawn o fwyta corynnod a chacwn a hefyd lygod bach os gall eu dal nhw. Dyw e ddim yn malio llawer os na chaiff ei lygoden achos fe all fyw am fisoedd heb fwyd.*

*Mae'r fenyw lawer yn fwy na'r gwryw, a phan fyddan nhw'n caru, mae'n olygfa ddigri, y gwryw bach yn ceisio cofleidio'i wraig anferth - iddo ef. Maen nhw'n dawnsio o gwmpas yn union fel pe baen nhw mewn gŵyl bop - yn wir fe allan nhw ddawnsio am ddiwrnodau gyda'i gilydd. Yna, mae'r fenyw yn derbyn y tŷ neu'r cartre y mae'r gŵr wedi'i baratoi iddi. Mae'n mynd i mewn, ac yna'n hamddenol, braf, mae'n dechrau bwyta'i gŵr - ac yn ei fwynhau bob tamaid!*

# Cadi Ha

Mae dawns y Cadi ha yn boblogaidd ar y cyntaf o Fai, ond wyddoch chi beth yw'r Cadi? Cymeriad hynod oedd ef (neu hi) fel rheol, yn gwisgo hanner fel merch a hanner fel dyn ac ambell dro yn gwisgo mwgwd dros yr wyneb. Gwaith y Cadi oedd bod yn ddigri yn ystod y dawnsio. Fe fyddai pobol yn dod i weld y dawnswyr yn dawnsio'r cadi ha, ac roedd y dawnswyr am iddyn nhw dalu am gael gweld. Y ffordd orau o ddigon oedd cael y cadi i fynd o gwmpas yn cario llwy gawl enfawr a elwid yn lletwad. Fe fyddai'r bobol yn rhoi arian yn y llwy gawl yma.

## TWM TWMPAN - BILI BACH

Wyddoch chi enwau beth ydyn nhw? Enwau ar fysedd, ac mae'n ddigon posib fod gennych chi enwau gwahanol arnyn nhw. Bys yr uwd, er enghraifft. Mae gan bobol o sawl rhan o Gymru'r enwau mwyaf od ar fysedd, ond ych chi wedi meddwl erioed paham nad yw pob bys yr un faint?

I gael yr ateb, rhaid ichi fynd yn ôl yn bell, bell mewn hanes pan oedd bysedd yn cael eu defnyddio i gerdded arnyn nhw. Gosodwch chi eich llaw ar y ford a "cherdded" eich bysedd o gwmpas, fe welwch chi mor lwcus ych chi nag yw eich bysedd i gyd yr un faint. Mae'r bys hwya a Thwm Twmpyn (bawd) a Bili bach (y bys lleia) yn ffurfio math o driongl sy'n cydbwyso'r llaw i gyd.

### LLANILLTUD FAWR

Yn ddiweddar cynhaliwyd y gwasanaeth Cymraeg cyntaf ers cyn co'r trigolion yn y capel Wesla. Roedd y gwasanaeth yn un anenwadol a bwriedir cynnal gwasanaethau cyffelyb ar y Sul cyntaf o bob mis o hyn ymlaen. Y Parch Gareth Watts y Barri fydd y Gweinidog a da oedd gweld tua 50 yn y gwasanaeth cynta'. Gobeithio y gwelir cynnydd eto ar Fehefin 1af. Cynhelir Ysgol Feithrin hefyd yn festri'r capel.

Ar Fehefin 29 cynhelir Cymanfa Ganu Chôr Meibion y Bontfaen - gobeithir y bydd aelodau capeli eraill fel Efail Isa a Wenfo yn dod atom hefyd.

# BLWYDDYN BRYNTAF

Os oeddech chi ymhlith y 150 o rieni a chyfeillion Bryntaf a ddaeth i Neuadd Goffa Rhiwbeina ar y 4ydd o Fawrth fe gofiwch i ni gael gwledd o noson yng nghwmni Maureen Rhys a John Ogwen. Diolch i'r ddau am gynllunio rhaglen wych ar ein cyfer - perlau llenyddol ein cenedl yn gymysg â hiwmor iach. Bu'r gymeradwyaeth ar ddiwedd y cyflwyniad yn dyst i'n gwerthfawrogiad. Clywais ddweud hefyd fod gweld dynion y pwyllgor wrthi'n gofalu am y bwyd yn werth pris tocyn ynddo'i hun!

Daeth nifer teilwng iawn o rieni hefyd i weld arddangosfa o lyfrau Cymraeg yn yr ysgol ar Fawrth yr lleg. Wyddoch chi beth yw ystyr #?#+!l+? ? Na? Wel petaech wedi dod i wrando ar Elen Ogwen yn son am ddulliau dysgu darllen buasech wedi dysgu llawer eich hun - a chael hwyl wrth weld rhieni eraill yn troi'n ddisgyblion unwaith eto. Llwyddodd Elen i'n cael ni i weld â llygaid plant bach, a thrwy hynny ddeall eu problemau yn well. Diolch iddi hi ac i'r sawl fu'n gyfrifol am yr arddangosfa am noson hynod ddiddorol.

Mae blwyddyn Bryntaf yn dirwyn i ben erbyn hyn. Bydd llawer ohonom yn dilyn ein plant i Lanelli wedi'r Llungwyn. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod. Ond nid oes raid i'r rheini ohonoch na all fynd i Lanelli golli'r gweithgareddau yno. Yn ogystal â'r rhaglenni radio a theledu arferol, mi fydd tonfedd VHF Radio BBC Cymru yn darlledu yn syth o lwyfan Prifwyl yr Urdd rhwng 2 a 5 o'r gloch bob prynhawn ond y Sadwrn. Mae'n bosib y clywch chi blant Bryntaf yn cystadlu!

Nid yw'r flwyddyn drosodd yn gyfangwbl chwaith. Mae dau gyfarfod ar ôl o hyd.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Iau, Mai yr 22ain, yn yr ysgol am 8 o'r gloch, ac i goroni ein gweithgarwch am eleni byddwn yn mwynhau *Miri Mehefin* yn *Ysgubor Trivetts* nos Wener, Mehefin 6ed. Erbyn i'r llith hwn ymddangos bydd ond ychydig o'r tocynnau ar ôl - ond os brysiwch fe'i cewch oddiwrth aelodau'r pwyllgor neu o'r ysgol. Croeso i bawb i brofi gogoniant Bro Morgannwg ar noson o haf.

EMYR JENKINS (Llywydd).

## PRIFATHRO

Eich llongyfarchion i Mr George Ladd, Culverhouse Cross ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Uwchradd y Preselau. Mae Mr Ladd ar hyn o bryd yn athro Addysg Grefyddol yn Ysgol Gyfun Y Barri. Fe fu Mrs Ladd am sbel yn athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Uwchradd Rhydfelen, ac fe'i gwelir yn aml ar y teledu yn rhoi syniadau inni ar goginio.

Mae Mr a Mrs Ladd yn hanu o fro'r Preselau, ac er ein bod yn falch eu bod yn cael dychwelyd i'w hen fro, fe fydd yn flin gennym eu colli o gymdeithas y ddinas. Mae'r ddau yn aelodau yn Eglwys Dewi Sant a bydd honno hefyd yn gweld eu colli.

---

## SYMUD ETO

Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Dinesydd wybod fod Mr a Mrs Alun Jones, (Heathpark Avenue gynt) yn symud o Flaenau Ffestiniog i Ddyfed. Penodwyd Alun i swydd yn ysgol Penweddig, Aberystwyth. Bu Alun am flynyddoedd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith ym Mhontypridd.

---

## Cydymdeimlad—

Blin iawn gennym gyhoeddi'r newydd trist am farwolaeth Mrs Beryl Jones gwraig Hywel Jones oedd yn uwch ddarlithydd yng Ngholeg Cyncoed cyn symud yn ddiweddar i fod yn Bennaeth Adran Addysg Coleg y Drindod. Roedd y teulu'n aelodau yng Nghapel Heol y Crwys. Mawr yw ein cydymdeimlad gyda Mr Jones a'r plant Huw a Ruth.

# A Welais ac a Glywais

*David Meredith*

"Gwn ei ddyfod mis y mel,
Gyda'i firi yn y blodau......"

Wedi treulio noson yn Chapter ar y trydydd o Fai - noson i ddathlu Calan Mai - 'r oedd pawb yn sicr fod Mai wedi dod. Noson arall yn y gyfres ardderchog o nosweithiau Calan Mai mae rhieni Ysgol Feithrin Llandaf wedi eu trefnu dros y blynyddoedd. Diolch i rieni ymroddgar.

Cafwyd noson ddifyr a diddorol. Cawl, gwlybaniaeth a bwydydd, anghenion y corff ac adloniant dan arweiniad medrus Roy Saer i ddigoni'r meddwl. Darlleniadau diddorol gan Richard Lewis, sgwrs feistrolgar gan Bennaeth Sain Ffagan, Mr Trefor Meredydd Owen am hen arferion pobl cylch Caerdydd yn amddiffyn y Fedwen Hâf.

Llais Meredydd Evans ar dap a holi'r pwnc o gylch Maenclochog. Dawnsio ysgafn draed gan Barti Dawnsio Aelwyd Caerdydd, a chanu cofiadwy gan bedwarawd o Goleg Addysg Caerdydd dan arweiniad Miss Anne Rosser, heb son am unawd telyn gan Elonwy Wright a chainc ar y ffidil gan Bethan Miles.

A lle fuasai noson o'r fath heb eitem lwyau Roy Saer ei hun! Eitemau byr heb lethu'r gynulleidfa oedd yr eitemau hyn i gyd. Oll yn weladwy dderbyniol trwy ddefnydd celfydd o'r goleuadau.

Calonogol iawn oedd cyfarfod cynifer o bobl yn dysgu Cymraeg yn bresennol yn y theatr. Mae'n syndod faint sy'n dysgu - bargyfreithiwr o Lyn Ebwy, cynghorwraig gyrfa o Lancashire, gwraig ty o Lanrhymni - gwych o beth.

Codi arian i hybu'r achos oedd pwrpas y noson. Gobeithio fod digon wedi dod i law. Cofiwch, mae'n sobor o beth fod codi arian i dalu am addysg Gymraeg wedi bod yn rhan o'm profiad i ers fy mhlentyndod yn y pedwardegau - a ddaw grantiau digonol rhyw ddydd?

## CWMNI OPERA

Gyda Syr Geraint Evans a Stuart Burrows, y ddau o Gilfynydd, yn canu ym mhrif dai opera'r byd bron na ellir eu galw'n gwmni opera Cilfynydd! Mae yn ryfeddod o beth fod cymaint o Gymry yn canu ar lwyfannau tai opera'r byd - cantorion megis Syr Geraint Evans, Stuart Burrows, Elizabeth Vaughan, Gwyneth Jones, Ryland Davies. Ym mhrif dai opera Ewrop a'r America maent yn cael y parch mwyaf - a ydym ni yng Nghymru yn euog o'u diystyrru? Buasai'n braf eu gweld yn amlach yn canu gyda'n Cwmni Opera Cenedlaethol, a'n bod yn cymryd ychydig mwy o ofal ohonynt - wedi'r cwbl, efallai na welwn am amser maith i ddod gynifer o ser o'r radd flaenaf ar ein ffurfafen gerddorol genedlaethol.

Y dydd o'r blaen 'r oedd Syr Geraint a Stuart Burrows ac Eirian James o Gilgerran yn recordio rhaglen Nadolig i HTV Cymru yn Y Ganolfan Deledu. Anarferol yw gweld stiwdio'n llawn o eira a hithau'n ddechrau Mai! Pan recordiwyd rhaglen gyffelyb rhyw ddwy flynedd yn ol allan yn yr awyr agored yn Ffynnon Dâf cafodd y recordiad effaith niweidiol iawn ar ddynes o Bontypridd. Trafeiliai ar y tren o Gaerdydd i Bontypridd. Ar ei thaith edrychodd allan drwy'r ffenestr a gweld eira gwyn yn Ffynnon Dâf. Cyrhaeddodd Bontypridd mewn cyflwr o sioc!

## CRONFA'R MILIWN

Bydd llu o weithgareddau yn cael eu trefnu yng Nghaerdydd yn y dyfodol agos er mwyn codi arian tuag at yr achos uchod. Mawr obeithir y bydd cyfraniad Caerdydd tuag at y gronfa yn un go sylweddol. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Dinesydd nesa'.

## DYWEDDIAD

Cyhoeddwyd dyweddiad Terry Donovan o Gaerdydd a Beryl Davies & Aberdar. Mae Terry yn gynorthwydd y Wasg a chysylltiadau cyhoeddus HTV Cymru. Yn y Ganolfan Deledu y mae Beryl hithau yn gweithio. Ar hyn o bryd mae Terry'n mynychu Wlpan.

# Y Genedlaethol i Waelod Y Garth?

Cafwyd noson arbennig o hwyliog unwaith yn rhagor yn Neuadd Bentref Efail Isaf ar nos Sadwrn Mai 3ydd pryd y cynhaliwyd ail Eisteddfod Gadeiriol y Garth. Bu steddfod y llynedd yn llwyddiant mawr a theimlai rhai mai siomedig o bosib fyddai'r noson eleni ond nid felly y bu. Roedd y neuadd yn orlawn drwy gydol y noson ond yn fwy felly ar ôl hanner awr wedi deg wrth reswm.

Y peryg bob amser mewn steddfod o'r fath pryd y ceir cystadlaethau ysgafn fel dweud stori ddigri ac araith ar y pryd yw i gystadleuwyr gadw draw oddi wrth yr ochr safonol i'r steddfod - ond y gwrthwyneb a ddigwyddodd. Roedd y canu a'r adrodd o'r safon ucha' er bod gormod ar y llwyfan mewn ambell i gystadleuaeth fel yr wythawd.

Uchafbwynt y noson oedd y cadeirio - a Delyth Beasley eto'n ennill y gadair. Mae'n rhaid fod Islwyn Jones beirniad y Gys-tadleuaeth, yn hoff o waith creadigol Delyth gan mai ef oedd yn gyfrifol am roi'r gadair iddi y llynedd hefyd er nad oedd ei feirniadaeth yn awgrymu fod safon y barddoni, heblaw am yr enillydd, yn uchel iawn. Wrth gwrs nid pawb fyddai'n dymuno rhannu'r llwyfan a Gorsedd y Garth a'r nefoedd a ŵyr beth a ddigwyddai petai rhywun o Gaerdydd wedi bod yn ddigon anffodus i ennill - dichon y byddai wedi ei bastynnu i farwolaeth. Bu'r trefnyddion yn dra lwcus ddwywaith gyda'r cadeirio oherwydd petai bardd enwog o'r tu allan i'r cylch wedi ennill mae'n dra tebygol na fyddai'n cael ei blesio gan anffurfioldeb a diffyg gwir awen Gorsedd y Garth.

Yn ôl y disgwyl hefyd fe luchiwyd y mwd arferol i gyfeiriad y cystadleuwyr o Gaerdydd, yn enwedig felly gan fod rhai o Gaerdydd wedi perfformio'n gaboledig iawn, yn enwedig y Parti Cerdd Dant a roddodd un o berfformiadau gorau'r noson.

Penry Jones enillodd ar yr englyn digri i'r Dinesydd ond yn anffodus nid oes ofod i'w gyhoeddi; Penry hefyd, neu Geraint Huws, oedd y buddugol ar yr englyn coch yn anffodus eto'n rhy fochaidd i bapur parchus fel Y Dinesydd ei gyhoeddi.

Côr Tonteg a orfu yn y brif gystadleuaeth gorawl gyda Chôr Creigiau yn ail mewn cystadleuaeth glos iawn. Rhaid son hefyd am berfformiad caboledig y beirniaid Islwyn Jones, Bernard Evans, Meredydd Evans a Phyllis. Mae'n holl bwysig fod beirniad yn gallu ymuno yn yr hwyl a dyna'n union ddigwyddodd.

Noson arbennig o hwyliog felly a mawr obeithir y bydd y steddfod yn datblygu o flwyddyn i flwyddyn ond heb golli yr elfen hwyliog sydd mor bwysig. Pwysigrwydd eisteddfod leol fel hon mewn bro lle'r oedd y Gymraeg yn iaith fyw hyd yn gymharol ddiweddar yw ei bod yn gyfrwng i bobl leol fagu diddordeb yn y




Gymraeg ac i ddysgwyr deimlo eu bod ynghanol bwrlwm bywyd Cymraeg. Mae'r gymdeithas glos sy'n bodoli ymysg Cymry Cymraeg y cylch yn warantu llwyddiant mewn menter o'r fath - a dyna, ysywaeth, sy' ar goll yng Nhaerdydd.

# Y GORNEL LYFRAU

## CYFROL O BWYS

Cyhoeddwyd llyfr pwysig iawn ar Fawrth laf eleni sef 'The Welsh Question' gan Alan Butt Philip. Ar yr wyneb ymddengys mai 'dyn o'r tu allan' go iawn yw'r awdur gan iddo gael ei addysgu yn Eton a Rhydychen - bu hefyd yn ymgeisydd seneddol i'r Blaid Ryddfrydol. Mae trylwyredd ei waith yn amlwg wrth edrych ar y rhestr o bobl y bu yn eu holi yn ystod ei ymchwil ac aeth i'r drafferth o ddysgu'r Gymraeg er mwyn treiddio'n ddyfnach i galon y deunydd. Dyma'r astudiaeth gyntaf o'i bath a dichon fod Swyddfa Plaid Cymru bellach yn falch fod yna gyfrol fel hon ar gael i'r bobl hynny o bob cwr o'r byd sy'n holi'n barhaol am un gyfrol sy'n trafod datblygiad y syniad o hunan lywodraeth i Gymru.

Mae'r awdur yn dilyn hynt a hanes Plaid Cymru ac yn disgrifio cefndir cymdeithasol yr aelodau a'r arweinwyr. Ond nid yw yn cyfyngu ei hun i un plaid - mae'n dadlau'r gryf fod yna gefnogaeth i'r syniad o hunan lywodraeth ymhob plaid. Mae'n gosod sylfaen i athroniaeth arwahanrwydd drwy son am dwf Methodistiaeth a'r cynnwrf ynglyn a Brad y Llyfrau Gleision, radicaliaeth y Blaid Ryddrydol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a thwf mudiad Cymru Fydd cyn delio a chyfnod cynnar Plaid Cymru a'r hyn a symbylai pobl i fod yn genedlaetholwyr.

Mae'r bennod ar ein diwylliant yn arbennig o feistrolgar a diddorol, a defnyddir tablau a mapiau'n aml i gefnogi ei sylwadau. Rhoir cryn bwyslais ar fywyd y capel fel ffactor hynod o bwysig ym mharhad yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Ceir pennod arall yn trafod pwysigrwydd gwaith mudiadau fel yr Urdd, Undeb Cymru Fydd, y Mudiad Ysgolion Cymraeg, U.C.A.C. a Merched y Wawr, gydag ymdriniaeth fanwl ar Gymdeithas yr Iaith. Fe drafodir darlledu yng Nghymru, Byddin Rhyddid Cymru, a chefndir ffurfio Undeb Amaethwyr Cymru - yn wir mae bron pob pwnc posib yn dod o dan fantell ymchwiliad Butt Philip. Yn naturiol, fe grybwyllir. hefyd, gyfraniad y partion gwleidyddol eraill yn yr ymgyrch tuag at ryw fath o hunanlywodraeth, ond i raddau helaeth digwyddodd oherwydd twf Plaid Cymru. Wrth gloi, mae'n tynnu sylw at gyn lleied sydd wedi ei wneud dros faterion Cymreig dan y system bresennol, ac yn pwysleisio mai dim ond wrth fod arwahan y caiff materion holl bwysig yng Nghymru eu datrys.

Cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru, pris £6.

I Siop y Triban

*Pob llwyddiant yn y siop newydd!*

oddi wrth **Gwasg y Dref Wen**

Llyfrau lliwgar: nofelau i blant: llyfrau i ddysgwyr

# TROBWYNT I SIOP Y TRIBAN

Mae Siop y Triban wedi symud. Na nid wedi symud i'r dociau nac i Waelod y Garth ond ar draws y ffordd i'r siop flaenorol yn 11 Wyndham Arcade.

Mewn sgwrs gyda gohebydd Y Dinesydd dywedodd y perchennog Pete Meazey ei fod yn hynod o falch o gael symud o'r diwedd i siop gryn dipyn yn fwy o ran maint na'r siop arall. Bydd llawer mwy o le i gadw ac i arddangos llyfrau ond mae'n fwriad pendant ganddo i ddangos mwy o lyfrau plant. Mae'n mawr obeithio y bydd mwy fyth o Gymry'r ddinas yn taro'i mewn am sgwrs ac i weld yn union beth yw'r diweddara' ym myd cyhoeddi llyfrau, papurau, cylchgronau a recordiau. Gobeithia hefyd y bydd swyddogion y cymdeithasau lleol yn defnyddio ei siop i arddangos posteri a gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad o bwys yn y cylch. Dyma'r ganolfan Gymraeg brysura' yng nghanol Caerdydd gyda Chymry Cymraeg yn tyrru yno wrth y cannoedd bob wythnos ond hyd yma ychydig sydd wedi manteisio ar y cyfle i hysbysu'r cyhoedd am y gwahanol weithgareddau. Mae angen canolfan o'r fath yng Nghaerdydd - gwnewch ddefnydd ohoni (Gyda llaw yr un yw rhif y ffon sef Caerdydd 30042).

Mae Pete a'i wraig wedi dysgu Cymraeg ac yn gefnogol iawn i weithgareddau Cymraeg yn y ddinas - cofiwn ninnau amdanynt wrth brynu llyfrau a recordiau.


*POB HWYL!*

Y LOLFA-TALYBONT

DYFED-TEL : 304



I SIOP Y TRIBAN

POB LWC WRTH SYMUD

*GWASG PRIFYSGOL CYMRU*

*Merthyr House, James St., Caerdydd.*



grŵp ap dafydd



siop y triban

**Peter a Nell Meazey,**

Mae'n bleser mawr gennym wahodd cwsmeriaid newydd a hen i ymweld a ni yn ein siop lyfrau newydd, **lle cewch ddewis llyfrau Cymraeg, cardiau a recordiau** i mewn amgylchedd dymunol. Mae gennym yn awr ddigon o le i chi gael edrych yn hamddenol.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ffyddlon y blynyddoedd diwethaf, i wneud y datblygiad yma'n bosibl.

11 Arcêd Wyndham Caerdydd CF1 1FJ Ffôn : 30042

**Agored chwe diwrnod yr wythnos 9.30 - 5.30**

# NEWYDDION CWM RHYMNI



CRONFA'R MILIWN

Penodwyd Mehefin 1af fel diwrnod terfynol yr apêl yn y cwm at Gronfa Mil o Filoedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Derbyniwyd eisoes £2,000 o gynghorau lleol, cymdeithasau a diwydiant yn ogystal a chan gannoedd o unigolion. Gwahoddir pawb sy'n dymuno cyfrannu i'r gronfa leol i wneud hynny mewn digon o amser cyn i'r llyfrau gau drwy anfon siec neu archeb bost i'r Trysorydd Mr Ken Jones, Banc y Midland, Caerffili. Sieciau i'w talu i Gronfa Cwm Rhymni (Apêl yr Eisteddfod).

* * *

TWMPATH

Daeth nifer dda ynghyd i Ganolfan Gymdeithasol Trecennydd i fwynhau noson o ddawnsio gwerin er budd y gronfa. Cafwyd cyfle hefyd i fwynhau eitemau gan Barti Dawns Ysgol Gymraeg Caerffili a grŵp Can Actol Ysgol Gymraeg Senghennydd - mae y ddau barti yn cynrychioli Sir Gwent yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanelli.

CWPAN RHYDFELEN

Llongyfarchiadau i dim rygbi Ysgol Gymraeg Senghennydd a'i hyfforddwr Moi Parri (a ddaeth i'r amlwg gyntaf ym myd rygbi fel asgellwr chwim) am ddod a chwpan Rhydfelen i dimau saith bob ochr yn ôl i Gwm Rhymni. Curwyd tim Ysgol Gymraeg Rhisca yn y rownd derfynol o 18-6.

LLANBRADACH

Mae Ysgol Feithrin Gymraeg Llanbradach wedi sefydlu ei hun erbyn hyn fel rhan bwysig o fywyd y pentref. Cynhaliodd y rhieni ffair lwyddiannus iawn yn ddiweddar yn Neuadd y Pensiynwyr. Fel canlyniad mae sylfeini ariannol yr ysgol gryn dipyn yn sicrach.

PRIODAS

Cyhoeddwyd fod priodas i'w chynnal ar ddydd Sadwrn Awst 16 rhwng Ann Hopcyn Davies merch hynaf Mr a Mrs Gwilym Davies, Cefn Llwyd, Abertridwr a William Evans (o'r Dyniadon Ynfyd gynt). Bydd y gwasanaeth yn Nhonyfelin, Capel y Bedyddwyr Caerffili. Llongyfarchiadau i'r ddau.

ATHRAWES

Croesawyd Miss Sian Parry fel aelod newydd ar staff Ysgol Gymraeg Senghennydd. Yn enedigol o Benygraig, y Rhondda, bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen cyn dilyn cwrs hyfforddiant yn y Coleg Normal, Bangor. Bu hefyd yn gweithio gyda chynllun dwyieithrwydd y Cyngor Ysgolion yn Ysgol Hendreforgan cyn symud i Senghennydd.

# Achos i Bryderi?

GWYLIWCH EICH GERDDI!

Mae moch Pryderi o gwmpas. Ond nid achos i bryderu ydi hyn ond achos i edrych ymlaen at ddiwedd y Mis pan fydd y cwmni bach o actorion - Ray Handy, Olwen Rees, Christine Pritchard a Clive Belman yn rhoi eu perfformiad cynta yng Nghaerdydd o "Pryderi And His Pigs" yn Arena Theatr Sherman (Mai 28-30).

Disgrifir y cyflwyniad hwn fel "Golwg ar fywyd drwy lygaid Cymreig" ac fe ddewisodd y cwmni hwn waith awduron a beirdd mor amrywiol â Dafydd ap Gwilym a Glyn Jones, Daniel Owen a Dannie Abse, Vernon Watkins a Harri Webb, yn ogystal â nifer o ganeuon gwerin i gyfleu'r golwg hwn ar fywyd Cymreig.

Mae'r cwmni hwn wedi ymddangos mewn amrywiaeth o lefydd er pan ddechreu'son nhw ddwy flynedd yn ol. Buont ar daith drwy Ogledd Cymru, Lloegr ac Unol Daleithiau'r America ac y maent wedi derbyn gwahoddiad i ddychwelyd i'r Unol Daleithiau y Gwanwyn nesa i ymddangos mewn amrywiaeth o lefydd o Efrog Newydd, drwy Baltimore, Virginia a Pennsylvania.

Nid rhaglen o weithiau dwys a difrifol yw hon ond awr a hanner o firi a hwyl gydag ambell bigiad i'n cydwybod gor-esmwyth yma ac acw.

Ymunwch â ni yn rhialtwch
'Steddfod Llanelli.
Gwyliwch ein rhaglenni arbennig
o'r Maes 6.30p.m. nos Fercher,
a 10.30p.m. nos Iau, nos Wener
a nos Sadwrn.
Hefyd adroddiadau bob nos
ar 'Y Dydd' a 'Report Wales'.
Daw Caleb i'r Eisteddfod
nid i gystadlu ond i
sicrhau y bydd sospan Llanelli
yn berwi drosodd!

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.

Mae pawb o bwys yng Nghymru heddiw, medde nhw, yn darllen

Y CYMRO

*Y PAPUR WYTHNOSOL CYMRAEG I GYMRU GYFAN*

Mae pob Cymro Cymraeg yn bwysig yn ei ffordd ei hun, ac eto, nid pob un sy'n darllen "Y Cymro" bob wythnos, hyd yn oed ym mhrifddinas Cymru.

BETH AM NEWID Y SEFYLLFA?

Wedi'r cyfan, mae gennym rywbeth ar gyfer pawb - colofn wyddonol, garddio, gwyddoniaeth, chwaraeon, pynciau'r dydd, barddoniaeth, crefydd, heb son am y newyddion diweddaraf sydd o bwys i Gymru, a cholofn lythyrau fywiog yn ymdrin â'r materion hynny.

---

Gallwch archebu'r "Cymro" yn rheolaidd drwy eich siop bapur newydd leol.

Neu, os mynnwch, gallwch danysgrifio a chael eich copi yn rheolaidd drwy'r post.

(am flwyddyn £8.32; am chwe mis £4.16)

Llenwch y ffurflen hon:

Enw ..................................................

Cyfeiriad ..................................................

..................................................

*Dychweler i Swyddfa'r 'Cymro', Caxton Press, Croesoswallt (Oswestry).*

# WYTHNOS GREFFTAU

## Yn yr Amgueddfa Werin - Mai 19-24

**Ar wahan i'r crefftwyr arferol - y turniwr coed, y cowper a'r melinydd gwlân, bydd cyfle i'r ymwelydd â'r Amgueddfa Werin yn ystod yr wythnos grefftau weld nifer o grefftau traddodiadol eraill yn cael eu harfer.**

### CYFRWYWR

O Aberteifi y daw Geler Jones, y cyfrwywr a ddysgodd ei grefft yng ngweithdy ei dad yn Rhydlewis. Hyd at 1925, yr oedd mwy na 500 o gyfrwywyr yng Nghymru ond bellach tua 6 sydd ar ôl, a Geler Jones yw'r unig un yn Nyfed. Ar un adeg, pan oedd yn rhaid wrth geffylau ar bob fferm yng Nghymru, yr oedd cymaint o alw am harnais lledr nes bod angen tri arbenigwr i wneud y gwaith - gwneuthurwr coleri ceffylau, gwneuthurwr harnais a oedd yn gyfrifol am wneud ffrwynau a strapiau a'r cyfrwywr a ofalai am gyfrwyau marchogaeth a chyfrwyau gwedd. Ond ar ôl y rhyfel byd cyntaf, gyda'r lleihad yn y galw am gyfrwyau a harnais, bu'n rhaid i un crefftwr ymgymryd â chrefftwaith y tri arbenigwr.

Crefft llaw yw crefft y cyfrwywr sy'n galw am fedr a phrofiad, yn enwedig y gwaith o wneud coler ceffyl.

### LLOSGI TOMENNI

Bydd Gilbert Brain a Freddie Roberts o'r Fforest Ddena yn llosgi tomenni golosg yn y dull traddodiadol. Hyd at ddeugeiniau'r ganrif hon, yr oedd y llosgwr golosg teithiol yn arfer ei grefft yn ardaloedd mwyaf coediog Cymru. Y canolfannau pwysicaf oedd fforestydd Gwent a Brycheiniog ac oherwydd ei bod yn haws cludo'r golosg na chludo'r coed ar gyfer ei gynhyrchu, yr oedd y grefft o losgi golosg o angenrheidrwydd yn ddiwydiant y goedwig. Wrth losgi'r domen, y mae angen cadw gwyliadwraeth ofalus arni, ddydd a nos, rhag gollwng aer iddi a throi'r domen yn llwch diwerth.

Y mae'r ddau grefftwr a welir yn yr Amgueddfa Werin yn ystod yr wythnos grefftau o blith yr olaf i arfer y grefft yn y fforest.

### Y TINCER

Crefft sydd bron wedi diflannu'n gyfangwbl o Gymru erbyn hyn yw crefft y tincer neu'r gof gwyn, a gellir dweud i sicrwydd mai Arnold Cole o Aberpennar yw'r olaf o feistri'r grefft hon nid yn unig yng Nghymru ond yng ngwledydd Prydain hefyd. Yr oedd ei dad o'i flaen yn of gwyn hefyd ac yn ystod yr wythnos grefftau bydd yn defnyddio arfau George Scammell o'r Fenni, crefftwr nodedig arall y symudwyd ei weithdy i'r Amgueddfa Werin ym 1969.

Tua 1850, pan ddisodlodd offer tun yr hen offer pren yn y cartref y gwelwyd y grefft ar ei hanterth. Daeth yn grefft bwysig yn y cymoedd glo yn ogystal a'r wlad, gyda'r galw am duniau bwyd a jaciau te. Y mae Arnold Cole wedi byw yn ardal Aberpennar a Phenrhiwceibr erioed.

### BWYDYDD RADELL

Yng Nghegin Kennixton yn yr Amgueddfa Werin bydd Mrs Ann Ladd, sy'n enedigol o Gwm Tawe, yn arfer y grefft o goginio amryw o fwydydd radell uwchben tân agored. Rhoddwyd lle amlwg i'r radell neu'r maen yn hanes coginio yng Nghymru ers y Canol Oesoedd. Datblygiad ydyw o'r hen ddull cyntefig o grasu ar garreg gynnes ar yr aelwyd, ac er i'r ffwrn wal ddod yn gymharol gyffredin, parheid i ddefnyddio'r radell i grasu bara neu deisennau.

### TRWSIO CLOCIAU

Technegydd yn uned gadwraeth yr Amgueddfa Werin yw Owen Morgan sy'n enedigol o Landdeusant yn Nyfed, ond fe'i hyfforddwyd yn y grefft o adnewyddu a chywiro clociau a watsys. Yn ystod yr wythnos grefftau, fe'i gwelir yn arfer y grefft o adnewyddu clociau.

Yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, yr oedd nifer o wneuthurwyr clociau enwog yng Nghymru. Yr oedd eu clociau 30 awr cás hir yn syml o ran peirianwaith; y crefftwr a wnai'r darnau symudol a'r gof lleol y wynebau pres a'r addurn rococo tra dibynnid ar y saer coed am y casiau derw. Erbyn diwedd y ganrif, yr oedd y crefftwr yn prynu deialau enamel a'r darnau symudol gan gwmnïau mawr o ganolbarth Lloegr ac erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd y grefft wedi newid o fod yn un o wneud clociau i un o osod cloc at ei gilydd. Byddai'r crefftwr hefyd yn adnewyddu a chywiro hen glociau er mwyn ychwanegu at ei incwm.



*Owen Morgan - adnewyddwr clociau.*

* * *

Bydd yr holl grefftwyr i'w gweld wrth eu gwaith rhwng 10-12.30 y bore, a rhwng 2.30 a 5 y prynhawn, bob dydd yn ystod yr wythnos grefftau.


*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## *Amgueddfa Werin Cymru*

Castell Sain Ffagan a'i erddi
Adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hailgyfodi
Crefftwyr yn ymarfer eu crefftau traddodiadol
Oriel Ddiwylliant Materol yn dangos agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru
Oriel Amaethyddiaeth Newydd
Arddangosfeydd arbennig o bryd i'w gilydd

*Datblygiadau Newydd*

Oriel Gerbydau Amaethyddol
Oriel Wisgoedd
"Melin Pompren" - melin flawd o Gross Inn, Dyfed.

*Cyfleusterau*

Maes parcio helaeth Ystafell fwyta
Llawlyfr (10c), Llyfrynnau arbennig, Llyfrau a Chardiau ar werth
Bws Rhif 32 o Orsaf Fysiau Cyffredinol Caerdydd ar yr awr

*Ar Agor*

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiau'r Wythnos | 10 - 5 | Hydref - Mawrth |
| | 10 - 6 | Ebrill, Mai, Mehefin, Medi |
| | 10 - 7 | Gorffennaf, Awst ar gwyliau cyhoeddus |
| Suliau | 2.30 - 5 | Hydref - Mawrth |
| | 2.30 - 7 | Ebrill - Medi |

Ar gau Noswyl Nadolig Dydd Nadolig Dygwyl Steffan a Dydd Calan

*Mynediad*

| | |
|---|---|
| Oedolion | 10c |
| Plant dan 16 oed | 5c |
| Pensiynwyr am ddim | |

Mynediad am ddim hefyd i bartion ysgol a drefnwyd ymlaen llaw a than oruchwyliaeth

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn Caerdydd (0222) 561357

# BECA

Yn ystod wythnos olaf Ebrill, fe fu Beca a'i merched yn ymweld â theatr Y Sherman yn y brifddinas - yng nghynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr yr Ymylon. Er bod rhaglen y cwmni yn cynghori'r gynulleidfa i ddarllen llyfr David Williams, The Rebecca Riots ar ôl y perfformiad, fyddwn i ddim yn dweud y gwelai unrhyw un a ymatebai i'r cyngor unrhyw debygrwydd rhwng y perfformiad a hanes y "wraig" hynod hon o Gaerfyrddin a'i "phlant", tae waeth am hynny. Achos yr hyn a wnaethant oedd cymryd yr hanes fel cefndir bras i nifer o episodau pur amrywiol eu naws. Fyddwn i ddim yn cytuno â'r rhaglen a alwodd y cynhyrchiad yn ddrama gerdd. Doedd fawr ddim cyswllt rhwng y gwahanol olygfeydd, ond doedd hynny'n tynnu dim oddi ar y perfformiad hwyliog a gafwyd. Roedd yma liw, miwsig gwefreiddiol, pathos a hiwmor a digon o symud disgybledig. Roedd yma hefyd gryn dipyn o ddyfeisgarwch, llawer ohono'n llwyddo ac ychydig ohono'n methu. Er enghraifft, gresyn na fyddai David Lynn a oedd yn meimio i'w gân agoriadol, wedi gofyn i rywun fynd i gorff y neuadd i wrando ar ei ganu drwy'r uchelseinyddion. Fe fyddai wedi cael ar ddeall ymlaen llaw fod y sistem drydan yn difetha'i lais yn llwyr. Welaf fi ddim paham, sut hynnag, fod cynifer o gantorion mor ddibynnol ar feic i chwyddo'u lleisiau, yn enwedig yn y math yma o gynhyrchiad. Mae gosod meic ar y naill ben a'r llall i'r llwyfan yn troi'n gynhyrchiad hanner drama a hanner gêm dennis.

**BETH SY'N BOD AR GYMRY CAERDYDD?**

Cynllun arall na fu'n llwyddiannus fu ceisio tynnu'r gynulleidfa i mewn i'r chwarae, ac arnom ni yr oedd y bai. Rhaid i gwmni Theatr yr Ymylon dderbyn erbyn hyn na ellir gofyn i gynulleidfa fodern ganu *unrhyw* emyn heb gopi. Ar wahân i hynny, mae'n anodd cael cynulleidfa (fel oedd yn y Sherman y noson y buais i yno) i ymateb. Fe fûm i'n holi a chael mai pur denau oedd y gynulleidfa bob noson, gwaetha'r modd. Mae'n rhaid ei bod yn dorr calon i gwmniau orfod dod i brifddinas Cymru a chael cynulleidfaoedd mor denau. Beth sy'n bod arnom ni, yng Nghaerdydd, dwedwch?

I'r rhai na fu yno, gallaf eich sicrhau ichi golli noson o ddiddanwch hynod ddymunol. Dyma'r tro cyntaf imi weld cynhyrchiad a oedd mor ddyfeisgar a bywiog. Dwy i ddim am enwi neb mewn llith fel hon, ond fe gawsom sawl sgets gomedi wych ac roedd nifer o'r unawdau'n wefreiddiol. Does gen i ddim ond canmol sawl syniad i glymu ambell olygfa wrth ei gilydd a phob clod i'r milwyr a wnaeth eu rhan yn ardderchog! Edrychaf ymlaen at weld rhagor o arbrofion y cwmni hwn! Yn enwedig gan fod Cwmni Theatr Cymru (sy'n methu â dod i'r Sherman, medden nhw!) yn gofyn inni fynd i fyny i Goleg Politechnig Morgannwg. Fedraf fi ddim meddwl am ddim un tref arall yng Nghymru â chynifer o theatrau addas ynddi. Efallai y bydd Theatr yr Ymylon yn barod i ddweud wrth y Cwmni Theatr sut y maen nhw'n llwyddo i gael pedair noson ar ôl ei gilydd yn y Sherman tra na all y Cwmni Theatr gael fawr ddim lwc!

W.J.J.

# Gwobr D.E. Evans

*Y mae'r wobr hon, a gyflwynir yn flynyddol er cof am Mr D.E. Evans (y person cyntaf i'w benodi yng Nghaerdydd fel Tiwtor i ofalu am Efrydiau Allanol) yn dod o gronfa a sefydlwyd gan fyfyrwyr a thiwtoriaid yr Adran Efrydiau Allanol a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Rhoir gwobr o £30 am y traethawd gorau ar bwnc penodol (gellir ei rhannu lle bernir bod hynny'n angenrheidiol) ac y mae'r gystadleuaeth yn agored i aelodau dosbarthiadau allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd a dosbarthiadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr.*

*Testun y traethawd ar gyfer Cystadleuaeth 1975-6 yw: ASTUDIAETH FEIRNIADOL O FARDDONIAETH T.H. PARRY-WILLIAMS*

*Anfoner y traethawd i Y Cyfarwyddwr, Adran Efrydiau Allanol, 40 Heol y Parc, Caerdydd. Dyddiad cau: Mawrth 31, 1976. Hysbysir y buddugwr (neu fuddugwyr) mewn da bryd.*


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)



O, 'RWY'N GYMRO GOL-EU-EDIG!




**SYTHWCH Y SEFYLLFA**
**Tâl Aelodaeth £7.00**
**Athrawon Blwyddyn Cyntaf £3.50**

UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

11, Gordon Road, Caerdydd,

CF2 3AJ. Tel. 24692

# Canolfan yr Urdd

## ARWEINWYR

Penodwyd dau is-warden i'r Ganolfan i fod yn gyfrifol am waith ieuenctid.

Mae Mr Ken Williams i ofalu am weithgareddau nos Lun a nos Fawrth, ac mae Mr Eryl Roberts i fod yn gyfrifol am y nos Wener. Athro yw Ken Williams, ac yn enedigol o Fôn, a chanddo ddiddordeb mawr yng ngwaith gyda ieuenctid Cymraeg y ddinas.

Mae Eryl Roberts hefyd yn frodor o Sir Fon, ac yn swyddog gyda'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae gan Mr Roberts brofiad helaeth yn myd ieuenctid, ac yn adnabyddus drwy Gymru fel adroddwr a beirniad.

Bydd y ddau benodiad yma yn cryfhau ac yn ehangu'r gwasanaeth a gynigir i gannoedd o griw ifanc y ddinas yn y Ganolfan yn wythnosol.

* * *

## YR AELWYD

Mae tri tim chwaraeon o'r Aelwyd wedi cyrraedd y rowndiau terfynol o CHWARAEON 1975 yn Llanelli eleni.

Mae'r tim pel rwyd yn ymddangos yn gryf iawn, ac mae'r gallu i ennill y bencampwriaeth hefyd gan y tim rygbi (7 bob ochr), a'r tim tenis bwrdd. Pob lwc iddynt yn Llanelli.

* * *

## WLPAN

Mae'r Wlpan nesaf i ddechrau ym mis Medi. Gobeithwn cyn hynny benderfynu ar y dosbarth, os bosib cyn gwyliau'r haf.

Os oes rhywun yn adnabod dysgwyr a diddordeb mewn dilyn cwrs Wlpan, gofynwch iddynt ysgrifennu at 'Wlpan', Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd cyn gynted ag sy'n bobibl.

* * *

## CLYCHAU PRIODAS

Roedd y si ar led adeg y Pasg fod y Gwir Anrhydeddus Gwilym Roberts, B.A. (Cymru), sydd yn dod o ardal wledig o'r enw Rhiwbeina, wedi priodi. (ie, wedi priodi). Roedd neb wedi gweld yr hen Gwilym o gwmpas y lle am bron i fythefnos (wel pythefnos gyfan i fod yn gywir), a roedd rhai pobl yn meddwl prynu anrheg priodas, heb son am ddyfalu pwy oedd y lodes lwcus.

Ond yn ffodus iawn, (neu yn anffodus efallai) daeth y gwir allan o'r diwedd. Y gwir oedd mai nid priodi fu tynged Gwils o gwbwl. Cael yfflon o bwl gwael o'r ffliw wnaeth e, ac yr oedd yn ôl yn y 'Conway' ar y pymthegfed diwrnod yn union, yn holliach, a'i farf yn hirach nag erioedd.

Gyda llaw, Blewyn Roberts fydd enw swyddogol y gwr penmoel hwn bellach. Nid oherwydd ei farf chwaith, ond oherwydd fod ganddo un blewyn ar ol ar ei gorun, sy'n profi, nad yw Robaits yn foel wedi'r cyfan.

* * *

## TYMOR DA

Daeth tymor llwyddiannus arall i ben i Adrannau Ysgolion Cynradd Caerdydd, sydd yn cyfarfod yn gyson ar nos Lun yn y Ganolfan. Drwy'r gaeaf daeth tua cant o blant bob yn ail wythnos i ddilyn rhaglen ddiddorol o chwaraeon, dawnsio gwerin, canu, gemau iaith, cwisiau ac ati. Mae hi'n beth gwych i weld gymaint o ddiddordeb ymlith dysgwyr Caerdydd - a rhaid diolch i'r athrawon a'r arweinwyr am hynny. Edrychwn ymlaen at eu gweld flwyddyn nesa eto.

# LODWIG JONES

Hen brofiad digon diflas bob amser ydyw gorfod canu'n iach i unrhyw un, yn enwedig felly ar ôl ysbaid hir o gwmniaeth a chyd-weithio hapus. Dyna fodd bynnag ddaw i ran aelodau Eglwys Heol y Crwys tua diwedd mis Mai pan fydd ein gweinidog parchus yn ymadael â Chaerdydd i ymgymryd â gofalaeth newydd yn Llanbedr Pont Steffan a'r cylch. Anodd sylweddoli bod bron chwarter canrif wedi mynd heibio er pan gychwynodd y Parch Lodwig Jones ar ei weinidogaeth yn y Crwys, ac mae'r ffaith honno ynddi ei hun yn brawf eglur o'r dedwyddwch a brofwyd ar hyd yr amser rhwng bugail a phraidd.

Yn ystod ei weinidogaeth hefyd cynyddodd aelodaeth yr Eglwys yn sylweddol iawn, ac nid ar hap a damwain y digwydd peth felly yn y byd sydd ohoni. Yn hytrach canlyniad bugeilio gofalus a chyson ydyw, a da yw medru tystio nad yw'r Parch Lodwig Jones yn ail i neb yn y maes hwn. "Wrth law o hyd" fu ei hanes ar hyd y blynyddoedd, a mawr yw dyled ein haelodau i gyd iddo am ei gymorth parod a'i air caredig ym mhob math o dywydd. Fe welir ei eisiau'n fawr yn y cylch agos hwn.

## PREGETHU NERTHOL

Ond nid yn ei waith bugeiliol yn unig ychwaith y gorffwys cryfder y Parch Lodwig Jones, ond hefyd yn ei bregethu nerthol a grymus. Esgynodd ers blynyddoedd bellach i reng flaenaf pregethwyr y genedl a gelwir arno'n aml iawn i wasanaethu yn ein huchel-wyliau. Tystia'r gynulleidfa gref o fechgyn a merched ieuainc a welir ar oriel y Crwys y naill nos Sul ar ôl y llall i atyniad y genadwri a dderbyniant yn gyson o'r pwlpud, ac yn sicr fe fydd llawer o negeseuau heriol y gweinidog yn glynu yng nghof cenhedlaeth ar ôl iddynt ymadael â Chaerdydd. Nid gwaith hawdd y dyddiau hyn ydyw dal cynulliad ieuanc - a hynny nid am flwyddyn neu ddwy ond am flynyddoedd lawer - a dyna dystiolaeth uchel arall i weinidogaeth Mr Jones yn ein plith. Cawsom ganddo yr Efengyl yn ei phurdeb a'i sialens. Mawr fu ein braint.

Bydd, mi fydd yn od iawn yma hebddo ef a'i annwyl briod, a does gennym ond diolch o galon iddynt ill dau am eu holl wasanaeth i ni fel Eglwys. Nid anghofir amdanynt, ac yn sicr mi fydd dymuniadau mwyaf diffuant Eglwys y Crwys a holl gylchoedd Cymraeg y brifddinas yn eu dilyn i'w maes newydd.

Colled Caerdydd fydd ennill mawr Llanbedr.

LH

---

Ar Draws

*1. Mellten; 5. Asyn; 7. Sir; 9. Ugeinfed; 13. Awn yfory; 15. Ddaw; 17. Trwy; 19. Sandal.*

I Lawr

*1. Mai; 2. Tawel; 3. Nawn; 4. Tŷ; 6. Nodyn; 11. Plant; 12. Coron; 14. Ynys; 16. Ail; 18. Ru.*

1. E; 2. Glas; 3. Glas; 4. Gwenni aeth i ffair Pwllheli; 5. Nagydyn; 6. Gafr ddu, ddu, ddu; 7. Nag ydy - y fwled yn mynd yn gynt na sŵn; 8. Dau, chi ac un arall; 9. Sant Nicolas (Siôn Corn); 10. Estrys. Mae'n cymryd ymron awr i'w ferwi e.


GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

- "DIWEDYDD". Noson draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
- YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
- BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
- POB LLOFT gyda ystafell ymolchi, breifat, ffôn teledu, offer gwneud te etc.
- CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
- CYMERADWYWYD gan lfas y Tryc ac eraill o gewri'r genedl!
- TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r gaeaf.
- CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232

# TAITH I'R WLADFA



*Mrs Shan Edwards o Gaerdydd - bu hi'n son am ei thaith i'r Wladfa yn ddiweddar yn y rhaglen "Hamdden" ar HTV.*

Cychwynais yn un o bymtheg ar ddiwrnod oer ym mis Mawrth o Faes Awyr Heathrow a'm bryd ar gael gweld Patagonia ym mhen draw'r byd. Anodd oedd peidio a chymharu cysur fy nhaith i ag anghysur y fintai gynta. Roeddwn i yn mynd yn llawn gobaith am fy mod ar fin gwireddu breuddwyd oes. Beth oedd teimladau'r fintai gynta?

"Eiddil Fimosa drwy
ddylif misoedd
Hwyliai i'w hantur ar
wamal wyntoedd
Ei chragen yn herio'r
llydan foroedd
A rhoddwyd i'w lliwio
freuddwyd lluoedd
Anelu o fro'r niwloedd
digariad
A morio i wlad y mawr
oludoedd."

Yn ystod fy arhosiad ces gyfle i roi fy nhroed ar draeth Porth Madryn a chael mynd i mewn i'r ogofau lle bu'r Cymry'n aros wedi'r glanio. Yna codi o'r traeth a chael gweld yr olygfa gyntaf a gafodd y Cymry sef y paith. Am funud ciliodd gwyrth a rhamant yr hanes ac fe'm cefais fy hun yn syfrdan. Ai i hyn y buont yn teithio moroedd? Mae'r paith ei hun fel môr mawr wedi'i sychu - dim byd ond anialdir i bob cyfeiriad. Sut na fuasent wedi torri'i calonnau, wn i ddim.

Ond nid taith drist fu hon i mi. Bu'n bythefnos o wefr ar ôl gwefr. Profiad anhygoel oedd cael gweld a'm llygaid fy hun leoedd gyda'r enwau hudolus fel Cwm Hyfryd, Gorsedd y Cwmwl, Afon Irfon, Plas Hedd, Llyn Halen Mawr a Dyffryn Camwy. Mwy o wefr fyth oedd cael ymweld â chartrefi y Cymry sy'n byw ar ffermydd fel Parciau Bach, Pennant, Bod Iwan, Bod Eglur, Pont y Meibion a Penygelli. Roeddwn yn dotio at y Gymraeg a siaredir yno - Cymraeg purach na'r Gymraeg a glywir yng nghartrefi Cymru. Pleser oedd clywed idiomau o iaith mor gyhyrog, rhywun yn son am "ddibyn anaele", "both yr olwyn" ac un wrth sôn am blant yn dweud "byddwch ofalus moch bach a chlustiau mawr ydy'r plant ma".

Gwn fy mod yn anobeithiol o ramantus wrth natur ond roeddwn wedi dod i feddwl fy mod drwy'r blynyddoedd wedi disgyblu fy hun i fod yn ymarferol ac i gadw'm traed yn sownd ar y ddaear. Syndod pleserus felly oedd canfod nad oedd y ddawn i wirioni a rhyfeddu ddim wedi clirio'n llwyr. Yn y wladfa mae bywyd yn fwy hamddenol a phobol yn fwy agored a llai soffisdigedig nag yng Nghymru. Teimlwn rywsut yn fwy rhydd, llai petrus a heb fod â chywilydd o ddangos brwdfrydedd neu grio os oeddwn o dan deimlad. Er imi fod yn brysurach dros y cyfnod nag a fum erioed o'r blaen teimlwn fy mod wedi ymlacio'n llwyr. Hir y parhao!

Treuliwyd y pythefnos yn ymweld â mannau diddorol, cymanfaoedd canu, gwasanaethau, nosweithiau llawen ac "asado" (math o barbecue). Ple bynnag yr aem roedd yno de croeso neu swper croeso, mewn festri neu gapel ran amlaf a'r pryd yr un fath bob tro - brechdannau cig, bara brith, cacennau a thartan afal.

## GWYBOD AM GYMRU

Synnais at eu gwybodaeth am Gymru - holai rhai am hynt a helynt datganoli yng Nghymru. Anaml iawn y cyfeiriai neb at Gymru - "sut mae pethau yn yr hen wlad?!" neu "sut mae pethau draw na?" oedd y cwestiwn bob tro. Diddorol oedd sylwi ar y silffoedd llyfrau yn y cartrefi - Cyfres y Fil, Cymru'r Plant, nofelau Daniel Owen a llawer o lyfrau crefyddol. Chydig iawn o lenyddiaeth gyfoes a welais yno. Wrth siarad â'r Gwladfawyr roeddwn yn sylweddoli bod ganddynt deimlad bod Cymru wedi anghofio amdanynt. Fe welais a'm llygaid fy hun bod ganddynt beth sail i gredu hyn - mae cyflwr y llyfrau emynau a'r Beiblau yn y capeli yn druenus. Hen Ganiedydd yr Annibynwyr a ddefnyddir ganddynt a byddai cyflenwad ohonynt yn dderbyniol iawn. Wrth baratoi ar gyfer rhaglen "Hamdden" ar HTV soniais am hyn wrth Dorothy Williams ac fe wnaed apêl ar y rhaglen am i unrhyw un allai, anfon copiau o'r Hen Ganiedydd i HTV ac yn garedig iawn fe fyddant hwy yn gofalu eu bod yn cyrraedd y Wladfa. Rwy'n siwr y bydd y capeli'n ddiolchgar iawn. Euthum i a phecyn o lyfrau oddi wrth Fudiad Ysgolion Meithrin Cymru i Ysgol Feithrin y Gaiman ac fe'i derbyniwyd yn llawen iawn.

Mae'n amlwg bod holl Gymreictod y Wladfa wedi, ac yn troi o gwmpas y capel a pheth gweddol ddieithr oedd cael hwyl a chwerthin iach. Cafwyd nosweithiau llawen hwyliog dros ben o dan arweiniaid y Parch Huw Jones. Roedd rhai eitemau fel cân y Ddau Blisman gyda Huw a T. Gwyn Jones yn tynnu'r lle i lawr, a'r eitem "Tom a'r ddol" o sgriptiau'r hen noson lawen yn newydd a ffres iddynt. Mwynheais innau gael canu'n ddiddiwedd ym mhob man. Anodd iawn oedd dirwyn unrhyw noson lawen i ben gan ei bod yn amlwg bod pawb wrth ei fodd.

## Y GYMRAEG YN MARW

Anodd yw imi roi'r ffrwyn ar f'atgofion a'm hargraffiadau ac y mae'n amhosibl i mi gyfleu'n iawn y swyn sydd gan Patagonia i mi. Rhaid dweud a chydnabod mai marw fydd tynged yr iaith yno gan nad oes ganddynt ddim i'w helpu. Ni ddysgir Cymraeg mewn unrhyw ysgol yno ag eithrio Ysgol Feithrin y Gaiman. Mae'n debyg mai dirywio fydd hynt y pymtheg capel sydd yno gan nad oes yr un gweinidog yno erbyn hyn. Er bod hyn yn chwith garw allai ddim bod yn drist - oherwydd dinasyddion yr Ariannin yw'r Gwladfawyr erbyn hyn ac maent yn canu anthem genedlaethol yr Ariannin gyda'r un balchder a phan maent yn canu "Hen Wlad fy Nhadau". I mi mae'n wyrth bod teuluoedd sydd yn byw yn y Wladfa er tair, pedair a hyd yn oed bum cenhedlaeth yn dal i siarad Cymraeg a neb ohonynt bron wedi gweld Cymru erioed.

## APÊL AM LETY

Wel i gloi. Yr haf yma mae dros bedwar ugain o'r Gwladfawyr yn dod i Gymru am y tro cynta. Mae 'na edrych ymlaen eiddgar tu hwnt a llawer ohonynt wedi bod yn cynilo ers blynyddoedd i allu dod. Rhywbryd rhwng y 9fed a'r 26ain o Orffennaf bydd rhyw drigain yn dod i Gaerdydd am rhyw ddeuddydd neu dri.

Bydd angen llety arnynt. A gaf apelio i ddarllenwyr y Dinesydd i roi help llaw i roi croeso teilwng iddynt. Fe hoffwn allu trefnu i bob un o'r Gwladfawyr aros mewn cartrefi Cymraeg - nid yn unig i arbed cost iddynt ond i arbed iddyn nhw gael siom ym mhrifddinas yr Hen Wlad. Gan nad oes ganddynt air o Saesneg mae cael llety mewn cartrefi Cymraeg yn hanfodol. Mae gen i arswyd iddyn nhw gael siom yn yr "Hen Wlad" a chredaf y bydd maint a chynhesrwydd y croeso yn fesur go helaeth o lwyddiant y daith. A wnaiff y sawl all letya un neu ddau o'r Gwladfawyr roi gwybod i mi os gwelwch chi'n dda?

SHAN EMLYN EDWARDS
Ffôn : 751469

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*